## PHYLLIS KINNEY yn ymgodymu â phroblemau

# CYFLWYNO EIN MIWSIG I'R BYD

DAETH llythyr fis Chwefror y llynedd oddi wrth *The Department of Ethnomusicology, University of California: 'We are publishing the Garland Encyclopedia of World Music in several volumes and invite you to contribute the entry on the traditional music of Wales for inclusion in the Europe volume.'*

Gwahoddiad gwefreiddiol ond hefyd un i ddychryn rhywun. Roedd y golygyddion eisiau'r gwaith erbyn Rhagfyr 1 ac roedd yn rhaid i'r gwaith fod yn gynhwysfawr. Dim llawer o amser, ond 'allwn i ddim yn fy myw wrthod y fath gynnig.

Y cam cyntaf oedd casglu gwybodaeth am agweddau i'r canu gwerin a oedd yn anghyfarwydd i mi. Gwyddwn gryn dipyn am y caneuon a'u hanes ond dim ond ychydig am offerynnau fel y crwth neu'r pibgorn. Mwy na dim, ni wyddwn i lawer am hanes cynnar cerddoriaeth draddodiadol y Cymry.

Heb gyfarwyddyd Mered, ni fyddwn wedi cwblhau y gwaith mewn pryd; trwy'r holl amser roedd o'n rhoi cyngor, yn awgrymu ffynonellau, yn nodi cyfeiriadau o bwys ac yn rhoi cefnogaeth gyson.

Yn lwcus mae'r Llyfrgell Genedlaethol ar y trothwy, fwy neu lai, a dyna oedd fy man cychwyn. Y peth cyntaf i'w wneud oedd darllen cyfraniadau pobl eraill i encyclopediau cerddorol. Pa fath o bethau oedden nhw'n eu cynnwys, faint o ddarluniau oedd yno, sut oedden nhw'n rhannu'r adrannau?

Treuliais oriau yn y Llyfrgell, yn edrych trwy lyfryddiaethau gan nodi teitlau o ddiddordeb, ac yna ddyddiau yn edrych yn frysiog trwy'r llyfrau eu hunain i weld beth oedd yno. Pe gwelwn rywbeth defnyddiol gwnawn nodiadau neu ffoto-gopi ar gyfer y ffeiliau.

Aeth hynny ymlaen am wythnosau; chwilio am ffeithiau a chasglu gwybodaeth. Yn raddol penderfynais sut i lunio'r peth. Ond haws penderfynu na gwneud.

* * * *

MAE DAU beth yn y byd modern sy'n hwyluso gwaith i'w gyhoeddi: y peiriant ffoto-copi, sy'n arbed oriau o sgwennu, a'r prosesydd geiriau. O'r cychwyn 'wnes i ddim sgwennu gyda phin ond gyda'r 'Amstrad'; mae'n dileu camgymeriadau, trosglwyddo paragraffau o un dudalen i'r llall, cywiro sillafu, rhifo'r geiriau, ac yn y diwedd yn printio'n daclus. (Efallai y daw, rhyw ddydd, beiriant sy'n cywiro camdreigliadau!)

Penderfynais gychwyn trwy roi braslun hanes cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru er y chweched ganrif, gan gychwyn yno oherwydd dyna'r pryd y daeth Cymru yn genedl ar wahân.

Nid oes dim miwsig ar gael o'r cyfnod, ac felly rhaid dibynnu ar gyfeiriadau a dyfyniadau o awduron y cyfnod cynnar — pobl fel Gildas a ddywedodd y drefn wrth Maelgwn Gwynedd, gan awgrymu fod beirdd y teyrn yn canu ei fawl mewn ffordd wahanol i ganu'r eglwys.

Yn nes ymlaen daw cyfeiriadau yn y Cyfreithiau a'r Gramadegau cerddorol sy'n cyfeirio at y cysylltiad agos rhwng barddoniaeth a cherddoriaeth, fel yn Iwerddon yr un cyfnod. Ond y llawysgrif gyntaf i oroesi sy'n nodi'r math o fiwsig oedd i'w glywed yw llawysgrif Robert ap Huw, bardd a thelynor o'r 16/17eg ganrif.

Am fwy na dau gan mlynedd mae ysgolheigion wedi cynnig pob math o ddatrysiad i broblemau'r llawysgrif, problemau sy'n codi oherwydd bod y dull hynafol o sgwennu'r gerddoriaeth yn y llawysgrif wedi'i anghofio ganrifoedd yn ôl. Felly nid oes neb yn gwybod yn sicr sut i ddehongli'r llawysgrif sy'n cynrychioli blynyddoedd olaf y gyfundrefn farddol.

* * * *

PARHAODD y cysylltiad agos rhwng barddoniaeth a cherddoriaeth ond er ein bod yn gwybod fod beirdd fel Huw Morris, Edward Morris, a'u tebyg, yn sgwennu cerddi i'w canu, nid oes dim cerddoriaeth rhwng cloriau tan gyhoeddiad *Antient British Music*, 1742, gan John Parry ac Evan Wiliam.

O hynny ymlaen dechreuodd cerddoriaeth draddodiadol ymddangos mewn print o bryd i'w gilydd, yn arbennig o dan ddylanwad Mudiad Hynafiaethol y 18fed ganrif.

Gwelodd y ganrif nesaf lu o ddatblygiadau pwysig: ymddangosiad y llyfr cyntaf o ganeuon gwerin Cymraeg gyda geiriau Cymraeg, cannoedd o emyn-donau, datblygiad tonic sol-ffa, tyfiant diwydiannau a threfi gyda neuaddau cyngerdd, eisteddfodau, cymanfaoedd canu, bandiau pres a chorau meibion.

Yna, ymlaen i'r ganrif hon, newidiadau syfrdanol megis datblygu'r cyfryngau, yn arbennig radio a theledu, addysg i bawb (gan gynnwys y dyddiau hyn, gyrsiau prifysgol ar gerddoriaeth draddodiadol), digon o ddiddordeb yn yr hen arferion i ffurfio cymdeithasau cerdd dant a chanu gwerin yn ogystal â digon o arian i brynu telynau.

Dyna oedd patrwm cyffredinol yr adran hanesyddol; mater arall oedd cofnodi'r holl wybodaeth yn gryno ac yn glir. Roedd yn rhaid i mi gofio fy mod i'n sgwennu ar gyfer pobl mewn gwledydd eraill, rhai ohonynt heb wybod am Gymru o gwbl. Hefyd cyfieithu pob ymadrodd Cymraeg i Saesneg, yn cynnwys dyfyniadau a theitlau caneuon a thermau fel *cerdd dant*.

Ymhellach, roedd yn rhaid cael lluniau i amlinellu pwyntiau yn y testun ac esiamplau cerddorol i'r un diben. Uwchlaw popeth roedd yn rhaid bod yn ofalus dros ben i gadarnhau pob ffaith er mwyn gwneud yn siwr ei bod yn gywir gan mai pwrpas encyclopedia yw cyflwyno ffeithiau mewn ffordd gryno a dibynadwy.

Wedi braslunio'r hanes cynhwysais adran ar nodweddion cerddoriaeth draddodiadol y Cymry. Mewn geiriau eraill, beth yw'r pethau sy'n gwahaniaethu cerddoriaeth Cymru oddi wrth gynhyrchion gwledydd eraill?

Yma roedd yn rhaid dibynnu i ryw raddau ar fy ymchwil fy hun oherwydd, ar wahân i un erthygl, 'The Tonal Limits of Welsh Folk Song', does dim llawer wedi'i gyhoeddi ar y pwnc.

Treuliais wythnosau'n dadansoddi a gwahaniaethu nodweddion alawon Cymreig, yn cynnwys siâp, modd, cwmpawd, addurniadau, diweddebau a ffurf, yn ogystal â nodweddion rhythmig. Ynglŷn â dulliau o ganu trafodais yr elfen ddatganiadol sydd mor amlwg yng nghanu gwerin Cymru, swyddogaeth y bwrdwn yn y gân-a-chytgan, a thuedd y Cymro i ymestyn y sill ddi-acen (dyfais rhythmig a elwir 'snap').

* * * *

YN Y DRYDEDD adran ymdriniais â mathau o ganeuon a fu'n boblogaidd yng Nghymru, gan gychwyn gyda'r rhai sy'n gysylltiedig â hen arferion fel y Fari Lwyd, Hela'r Dryw a chaneuon Gŵyl Fair y Canhwyllau.

Y peth pwysicaf yma yw'r pwyslais ar y canu cystadleuol tu allan i'r drws, yn achos y Fari Lwyd, a thu mewn i'r tŷ, megis y canu camp yn nathliadau Gŵyl Fair. Erys y carolau plygain yn rhan o'r Nadolig yng Nghymru ond mae'r carolau Mai, a oedd mor aml i'w canu gyda'r delyn, wedi hen ddiflannu.

O'r gweddill, y caneuon serch sy'n ffurfio'r dosbarth mwyaf, gan gynnwys canu mawl i'r ferch, caneuon 'streicio', llatai, ymddiddan carwriaeth, ac wrth gwrs caneuon galar y cariad gwrthodedig.

Roedd y faled hefyd yn boblogaidd yng Nghymru er ei bod wedi newid o'r dull cynganeddol yn yr 17/18eg ganrif i ddull symlach y 19fed ganrif a oedd yn dweud stori am lofruddiaeth neu longddrylliad neu ddyfodiad y rheilffordd. Mae natur yn chwarae rhan amlwg mewn caneuon am lwynog neu ddau farch neu golomen, a chaneuon fel y gelynnen neu rosus cochion a lilis gwynion.

Mae'n bwysig hefyd yn y caneuon nodweddiadol Cymraeg sy'n canmol bro arbennig. Rhoir amlygrwydd i waith yn y caneuon ychen ac mewn cân odro, cân ffordd, cân am bysgota, cân efail a chân ffatri. Ceir digon o hiwmor yn y canu gwerin, yn aml yn cynnwys gormodiaith eithafol, elfen sy'n apelio'n arbennig at blant.

Mae'r elfen ddigrifwch yn gryf ymhlith y caneuon 'macaronig' (cymysgedd o Gymraeg a Saesneg), ond mae rhai o'r rheiny hefyd yn rhai hiraethus.

* * * *

YN OLAF ychwanegais adran am offerynnau'r Cymry, gan gynnwys disgrifiadau o'r delyn (yn arbennig y delyn deires), y crwth, y ffidl, y pibgorn a phibau côd, yn ogystal ag offerynnau'r llofft stabal fel y sturmant a chonsertina.

Anfonais yr erthygl i California ym mis Tachwedd ond mae'n rhaid i mi wneud llyfryddiaeth, discograffi a ffilmograffi cyn i mi gwblhau fy ngorchwyl. Mwynheais y gwaith yn fawr ac rwy'n falch o'r cyfle i drosglwyddo i bobl y byd tu allan beth o fy hoffter o gerddoriaeth Cymru.


**SIOP Y PENTAN**

CAERNARFON

Yr ydym yn graddol ddatblygu gwerthiant llyfrau ail-law ochr yn ochr â'r cyfrolau diweddaraf.

Cewch fwy o fanylion gyda hyn.